**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH POLISI A PHERFFORMIAD YN Y GYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mawrth 24 Mehefin 2008 am 9.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr H H Evans, I A Gunning, M M Jones a'r Prif Weithredwr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes, Swyddog Personél (Linda M Jones) a Chlerc y Sir.

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau/Dirprwy Brif Weithredwr

**95 PENODI CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd M M Jones yn Gadeirydd y Panel.*

**96 EITEMAU BRYS**

Dim

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD,** o dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol am y rhesymau eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig o bosibl fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**97 PENODI PENNAETH POLISI A PHERFFORMIAD YN Y GYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES – LLUNIO RHESTR FER**

Esboniodd y Swyddog Personél i aelodau sut y cafodd y broses recriwtio ei chynnal. Roedd y curriculum vitae a gyflwynwyd gan yr unig ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais eisoes wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Rhoddwyd adroddiad llafar ar ganlyniadau Holiadur Personoliaeth Alwedigaethol mewn perthynas â'r ymgeisydd ynghyd ag argymhelliad yn y cyfarfod.

Ystyriodd yr aelodau rinweddau'r cais.

***PENDERFYNWYD** bod*

*(a) yr ymgeisydd yn mynd ymlaen i gyfweliad ffurfiol.*

*(b) y Panel yn ailymgynnull am 9.00 a.m. ar ddydd Mercher 2 Gorffennaf i bennu cwestiynau i'w rhoi i'r ymgeisydd yn y cyfweliad terfynol a fydd yn dechrau am 9.30 a.m. lle byddai'r ymgeisydd hefyd yn rhoi cyflwyniad ar destun a bennwyd ymlaen llaw.*

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 a.m.

********